# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Gofal Deintyddol Oasis, Penrhyndeudraeth/Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 26 Medi 2017

Dyddiad cyhoeddi: 28 Rhagfyr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-404-2



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. What we did .......... 5

2. Summary of our inspection .......... 6

3. What we found .......... 7

Quality of patient experience .......... 8

Delivery of safe and effective care .......... 13

Quality of management and leadership .......... 19

4. What next? .......... 21

5. How we inspect dental practices .......... 22

Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection .......... 23

Appendix B – Immediate improvement plan .......... 24

Appendix C – Improvement plan .......... 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Oasis yn Uned 2A, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 26 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Oasis Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddir digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Cofnodion clinigol rhagorol
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol, ac yn cael eu storio y tu allan i ardaloedd clinigol
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i ddiweddaru ar gyfer un deintydd.
- Sicrhau bod unrhyw ddifrod i'r cadeiriau deintyddol a'r cabinetau yn cael eu trwsio yn y pedair ystafell driniaeth
- Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Gofal Deintyddol Oasis yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Penrhyndeudraeth. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy’n cynnwys pum deintydd, un therapydd, pum nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a rheolwr practis ymrwymedig.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol NHS and private.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Oasis Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd yr adborth a ddarparodd y cleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth gwych bob tro"*
>
> *"Mae'r deintydd hwn yn wych. Trueni nad oes llawer mwy ohonynt"*
>
> *"Mae'r staff yn gymwynasgar iawn (bob amser)"*

### Cadw'n iach

Dywedodd pob claf ond dau a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw o bosteri a thalenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd arwyddion "dim ysmygu" yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros/derbynfa.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu ystod o driniaethau deintyddol preifat a GIG.

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd bron traean o gleifion nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan, ac roedd yn cael ei harddangos o amgylch y dderbynfa a'r ardal aros.

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd wyth o'r ugain o gleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg. Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oeddent yn gallu siarad â staff trwy gyfrwng y Gymraeg pan oeddent yn dymuno gwneud hynny; dywedodd pump ohonynt eu bod yn gallu ar bob adeg, ond dywedodd tri ohonynt mai dim ond weithiau roedd hyn yn bosibl.

Gall bron hanner y staff sy'n gweithio yn y practis gyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd bron un rhan o dair o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol ar frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth frys y tu allan i oriau ar gleifion.  Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos yn glir ar bwys y brif fynedfa ac fe'i rhoddir hefyd ar wefan y practis. Fe'n hysbyswyd ni gan y practis nad oedd neges beiriant ateb awtomatig ar gael oherwydd problemau technegol gyda'r peiriant ateb.  Cawsom sicrwydd ar lafar fod trefniadau ar waith ar gyfer trwsio'r peiriant. Hyd nes y gallant wneud neges awtomatig, dywedodd y practis wrthym y caiff rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ei roi i gleifion ar ôl eu hapwyntiad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd mwyafrif helaeth o’r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cadarnhau bod y deintyddion yn eu holi ynglŷn â’u hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod pob ymweliad. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflenni meddygol yn cael eu cydlofnodi/llofnodi gan y deintyddion. Gwnaethom gynghori'r practis i gyflwyno ffurflen feddygol 'arddull newydd' sy'n cynnwys bwlch neilltuedig i'r deintyddion lofnodi, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Cytunodd y mwyafrif helaeth o gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

Gwnaethom hefyd nodi bod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod caniatâd i dderbyn triniaeth yn cael ei geisio gan bob claf.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae'r practis yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd ac mae ganddynt eu cyfleusterau parcio eu hunain gydag ardal barcio neilltuedig ar gyfer cleifion anabl.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom adolygu polisi ymdrin â chwynion y practis a gwelsom fod ffeil gwynion neilltuedig ar waith gan y practis.

Dywedodd bron dau o bob tri chlaf a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol roeddent wedi eu derbyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y gweithdrefnau cwyno yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros, ynghyd â phoster Gweithio i Wella[1] y GIG.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis ar gyfer casglu adborth gan y cleifion; ac mae'r practis yn cyflawni hyn trwy ddarparu holiaduron i'w cleifion yn y dderbynfa/man aros. Gall cleifion hefyd roi adborth trwy wefan y practis. Mae dadansoddiad adborth yn cael ei arddangos yn y man aros ac mae wedi'i gyhoeddi ar wefan y practis.

---

[1] Gweithio i Wella

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis wedi gofyn am eu barn ynglŷn â'r practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff.

Canfuom fod nodiadau clinigol cleifion rhagorol yn cael eu cadw.

Fodd bynnag, canfuom fod angen gwneud rhai gwelliannau i bedair ystafell driniaeth.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus, a heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd digonedd o gyfleusterau toiled ar gyfer y cleifion a'r staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal mewn modd priodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, wedi'i gyfarparu'n dda, ac yn rhydd rhag annibendod. Dangosodd staff y broses ddadheintio a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar ddadheintio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau bob chwe mis, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y risg o groes-heintio mor isel ag y bo modd er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd, fel arfer da, bod offerynnau deintyddol yn cael eu storio y tu allan i'r amgylchedd clinigol.

Gwnaethom nodi fod gan y practis bolisi rheoli heintiau cyffredinol Oasis ar waith. Gwnaethom argymell y dylid adolygu a diweddaru'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y protocol dadheintio penodol ar gyfer y practis, a gweithredodd y practis hyn ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y peiriannau awtoclaf wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos yn y mannau perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol ac roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Roedd un aelod newydd o'r staff a oedd yn mynd i gael yr hyfforddiant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod yr aelod newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith a oedd yn cynnwys plant ac oedolion sy'n agored i niwed.  Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, roedd un aelod newydd o'r staff a oedd yn mynd i gael yr hyfforddiant.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cawsom ein hysbysu gan y practis fod angen adnewyddu gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer un o'r deintyddion ac y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar ei gyfer.  Rhaid i'r holl ddeintyddion sydd wedi cofrestru gydag AGIC feddu ar wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i ddyddio o fewn y tair blynedd diwethaf.  Roedd gan yr holl staff perthnasol eraill dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Yr hyn y mae angen ei wella

Anfon manylion tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd ar gyfer un deintydd ymlaen at AGIC.

Sicrhau bod yr aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd gan y practis gyfanswm o bum ystafell driniaeth a gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd triniaeth hyn wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn. Roedd un ystafell driniaeth wedi'i hadnewyddu'r ddiweddar i safon uchel. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o welliannau sydd eu hangen i'r pedair ystafell driniaeth sy'n weddill.

Canfuom fod angen rhyw fath o sblasgefn i'r sinc yn ystafelloedd triniaeth un, dau, tri a phedwar gan fod y waliau a beintiwyd mewn cyflwr gwael.

Canfuom fod rhai rhwygiadau bychain ar glustogwaith y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth un, dau a phedwar a pheth rhwd ar ddarnau metel y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth rhif tri, a oedd yn rhwystro glanhau effeithiol.

Yn ogystal, canfuom fod peth difrod neu ôl traul i rai o'r cabinetau yn ystafelloedd triniaeth un, dau, tri a phedwar. Gwnaethom hefyd nodi rhai mannau wedi rhydu ar freichiau metel yr unedau yn ystafelloedd triniaeth un a phedwar.

Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau eisoes ar waith i adnewyddu ystafelloedd triniaeth un i bedwar.

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer y defnydd diogel o gyfarpar radiograffeg (pelydr-X) a gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydrau-X yn flynyddol.

Gwelsom hefyd dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant mewn ymbelydredd ïoneiddio.

Fodd bynnag, canfuom fod angen adnewyddu'r gwiriad cynnal a chadw ar beiriant pelydr-X ystafelloedd triniaeth un, dau, tri a phedwar. Roedd y peiriant pelydr-X yn ystafell driniaeth pump wedi'i wasanaethau a gwelsom y dystysgrif berthnasol. Dywedodd y practis wrthym fod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu ar ddiwrnod ein hymweliad a gwelsom y peiriannydd ar y safle. Roedd gan y practis gynlluniau wrth gefn i gwblhau pelydrau-X yn ystafell driniaeth pump yn unig, hyd nes bod y cyfarpar pelydr-X yn ystafelloedd triniaeth un i bedwar wedi'u gwasanaethu. Gwnaethom nodi bod arwyddion addas wedi'u harddangos a bod yr holl aelodau o staff wedi'u hysbysu. Mae'r tystysgrifau ar gyfer y cyfarpar pelydr-X bellach wedi'u hanfon ymlaen at AGIC.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sblasgefn i'r sinc yn ystafell driniaeth un, dau, tri a phedwar.

Sicrhau bod y difrod i glustogwaith y cadeiriau deintyddol yn ystafell driniaeth

un, dau a phedwar yn cael eu disodli neu eu hailglustogi.

Sicrhau bod y rhwd ar ddarnau metel y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth tri yn cael ei atgyweirio.

Dylid atgyweirio unrhyw ddifrod i'r cabinetau yn ystafelloedd triniaeth un, dau, tri a phedwar.

Dylid atgyweirio unrhyw fannau rhydlyd ar freichiau metel yr unedau yn ystafelloedd triniaeth un a phedwar.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol.

Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles o safon uchel ar gyfer cleifion.

Gwnaethom archwilio cyfanswm o 25 o gofnodion cleifion a chanfod bod y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth lle y rhoddid cynllun triniaeth i gleifion. Roedd y deintyddion yn cofnodi bod cyngor ynglŷn â sgrinio am ganser wedi cael ei roi. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod cyngor i gleifion ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu hefyd yn cael ei ddogfennu.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Y rheolwr practis newydd oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd yn effeithiol ac yn gymwys yn ei rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon gyda rheolwr y practis, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Hysbyswyd ni gan y practis nad oes arfarniadau staff blynyddol wedi'u cwblhau â staff ers peth amser. Cawsom wybod bod cynlluniau bellach ar waith i gwblhau arfarniadau â staff dros y misoedd nesaf. Roedd cynllun datblygiad personol â staff clinigol eisoes wedi'i gynnal. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth fod gan y practis gynlluniau ar waith ar gyfer cyfarfodydd tîm rheolaidd.

Roedd yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad adolygu a/neu reolaeth dros wahanol fersiynau, ac y dylai sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos eu manylion cyswllt brys a'u horiau agor y tu allan i fynedfa'r adeilad, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion.

# 4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Oasis, Penrhyndeudraeth

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Oasis, Penrhyndeudraeth

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod yr aelod newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau<br>a'r<br>7.1 Gweithlu | Mae cwrs wedi'i drefnu ar gyfer 20 Rhagfyr 17 yn y practis | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | |
| Anfon manylion tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd newydd ar gyfer un deintydd ymlaen at AGIC. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd | Wedi'i gyflawni | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | 2.11.17 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod yr aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. | mewn perygl | Cwblhawyd 19.10.17 | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | 19.10.17 |
| Mae angen sblasgefn i'r sinc yn ystafell driniaeth un, dau, tri a phedwar. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol<br>ac<br>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Ymweliad wedi'i gwblhau – dyfynbris ar gais – aros am brisiau | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Cyn gynted â phosib – diwedd mis Tachwedd |
| Sicrhau bod y difrod i glustogwaith y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth un, dau a phedwar yn cael ei ddisodli neu ei ail-glustogi. | | Ymweliad wedi'i gwblhau – dyfynbris ar gais – aros am brisiau | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Cyn gynted â phosib – diwedd mis Tachwedd |
| Sicrhau bod y rhwd ar ddarnau metel y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth tri yn cael ei atgyweirio. | | Ymweliad wedi'i gwblhau – dyfynbris ar gais – aros am brisiau | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Cyn gynted â phosib – diwedd mis Tachwedd |
| Dylid atgyweirio unrhyw ddifrod i'r cabinetau yn ystafelloedd triniaeth un, dau, tri a phedwar. | | Ymweliad wedi'i gwblhau – dyfynbris ar gais – aros am brisiau | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Cyn gynted â phosib – diwedd mis Tachwedd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid atgyweirio unrhyw fannau rhydlyd ar freichiau metel yr unedau yn ystafelloedd triniaeth un a phedwar. | | Ymweliad wedi'i gwblhau – dyfynbris ar gais – aros am brisiau | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Cyn gynted â phosib – diwedd mis Tachwedd |
| Hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd | Datganiad o ddiddordeb wedi'i gwblhau – aros am gyswllt | Dawn Gorle, Rheolwr y Practis | Aros am gyswllt anhysbys |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Dawn Gorle**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** 10 Tachwedd 2017